NIHR | Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd Rhondda Cynon Taf

Health Determinants Research Collaboration Rhondda Cynon Taf

# Cacen Dystiolaeth CYBI RhCT

## Ymgorffori dull gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn rhan o arferion bob dydd



RHONDDA CYNON TAF

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

interlink Rhondda Cynon Taf

Wales Centre for Public Policy Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

DECIPHer Centre for Development, Evaluation, Complexity and Implementation in Public Health Improvement A Public Health Research Centre of Excellence

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

# Agenda

- Croeso i Rondda Cynon Taf!
- Cyflwyno'r Gacen Dystiolaeth
- Diben
- Man Cychwyn
- Egwyddorion
- Rhoi ar waith
- Effaith
- Rhannu'r hyn a ddysgir
- CWESTIYNAU

# Cydweithrediad Ymchwil ar Benderfynyddion Iechyd RhCT

## Amdanon ni






Yn Rhondda Cynon Taf:

...mae gyda ni 241,000 o drigolion
...ni yw'r 3ydd Awdurdod Lleol mwyaf yng Nghymru
...rydyn ni'n falch iawn o'n treftadaeth lofaol ddiwydiannol
...rydyn ni'n cyflogi 10,500 aelod o staff y Cyngor (83% yn byw yn RhCT)
...mae gyda ni rai o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru o ran derbyniadau i'r ysbyty mewn perthynas ag alcohol, babanod â phwysau isel adeg geni, clefydau anadlol, tai o ansawdd gwael, gordewdra, cyrhaeddiad addysgol a thlodi plant
...mae disgwyl i unigolion fyw bron i 10 mlynedd yn llai na rhannau eraill o'r DU

# Cyflwyno'r Gacen Dystiolaeth




Lewing, Gross, a Molloy (2022) Early Intervention Foundation (wedi'i addasu)

## Profiad Byw | Lived Experience

Adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar wasanaethau lleol, cymorth/cefnogaeth, a blaenoriaethau allweddol

e.e. Adborth gan drigolion sydd wedi defnyddio gwasanaeth cymorth tai lleol, gan roi adborth ar eu profiadau ac awgrymiadau ar gyfer gwella.

Feedback from service users on local services, support, and key priorities

e.g. Feedback from residents who have used a local housing support service, providing feedback on their experiences and suggestions for improvement.

## Gwybodaeth Broffesiynol | Professional Knowledge

Cipluniau ymarferwyr ynghylch pa mor dda y mae ymyriadau a gwasanaethau'n gweithio

e.e. Profiadau gweithiwr cymdeithasol ar effeithiolrwydd rhaglen gymorth i deuluoedd newydd yn seiliedig ar eu profiad uniongyrchol o weithio gyda theuluoedd.

Insights from practitioners on how well interventions and services work.

e.g. A social worker's insights on the effectiveness of a new family support program based on their direct experience working with families.

## Data Poblogaeth | Population Data

Gwybodaeth am y boblogaeth, ei hanghenion, a sut mae'n newid dros amser.

e.e. data Cyfrifiad sy'n dangos newidiadau yn y boblogaeth leol megis oedran, dosbarthiad ethnig sy'n cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau cymunedol yn y dyfodol.

Information about the population, its needs, and how it's changing over time.

e.g. Census data showing changes in the local population such as age, ethnic distribution contributing towards the development of future community services.

## Gwaith Ymchwil Academaidd | Academic Research

Canfyddiadau ymchwil sy'n tynnu sylw at arfer da i lywio gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau ac ymyriadau lleol.

e.e. Canfyddiadau ymchwil o astudiaeth prifysgol yn nodi arfer gorau ar gyfer lleihau diweithdra ymhlith pobl ifanc, y byddai modd eu defnyddio i lywio rhaglenni hyfforddiant swyddi lleol.

Research findings that highlight good practice to guide the planning, delivery, and evaluation of local services and interventions.

e.g. Research findings from a university study identifying best practice for reducing youth unemployment, which can be used to inform local job training programs.

## Data Sefydliadol | Organisational Data

Data ar ddarparu gwasanaethau, defnyddio adnoddau, a sgiliau a chyflawniad y gweithlu.

e.e. defnyddio data ar effeithlonrwydd gwasanaethau casglu gwastraff, gan gynnwys defnyddio adnoddau, llwybrau casglu, a metrigau cyflawniad staff.

Data on service delivery, resource use, and the skills and performance of the workforce.

e.g. using data on the efficiency of waste collection services, including resource utilisation, pick up routes, and staff performance metrics.

## Data Mesur Effaith | Impact Measurement Data

Gwerthuso gwasanaethau ac ymyriadau, gan gynnwys monitro prosesau ac effaith yn lleol.

e.e. Canlyniadau o werthusiad o fenter iechyd leol, sy'n dangos budd i lesiant meddyliol unigolion.

Evaluation of services and interventions, including local monitoring of processes and impact.

e.g. Results from an evaluation of a local health initiative, showing the improvements it made  to individuals mental wellbeing.

# Diben

Sefydlu iaith gyffredin ar draws y cydweithrediad er mwyn hwyluso trafodaeth mewn perthynas ag ymchwil a dealltwriaeth a rennir yn ymwneud â sut y gall defnyddio ystod o dystiolaeth helpu'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae wedi'i dylunio er mwyn bod yn gynhwysol ac ar gael i bob cynulleidfa sydd yn ymwneud â'r CYBI, gan gynnwys staff y Cyngor, Aelodau Etholedig a Dinasyddion.

# Man Cychwyn

Roedd diffiniadau gwahanol o 'dystiolaeth' wedi ystyried dehongliadau amrywiol a chreadigol o'r hyn a oedd eisoes yn bodoli a'r hyn a oedd ei angen.

Roedd angen trosi diben a gwaith y CYBI yn arfer a oedd yn bendant, yn berthnasol, ac yn ddefnyddiol i randdeiliaid.

Roedd angen dull anfygythiol o annog gwasanaethau a staff y Cyngor i drafod cryfderau a bylchau o ran tystiolaeth a sgiliau, a hunanwerthuso eu safle sylfaenol yn hyderus ac yn onest.

Rydyn ni eisoes wedi mabwysiadu dull newid trawsnewidiol o ran sefydlu'r CYBI â phrif ganolbwynt o ymgorffori ein gwaith mewn arferion Corfforaethol - roedd angen hyn er mwyn sefydlu diben cyffredin a dealltwriaeth glir o'r 'pam' er mwyn cefnogi newid.

# Egwyddorion

Mae pob math o dystiolaeth yn gyfartal - does dim hierarchaeth

Hyderus, gweladwy, hygyrch, blaenllaw ac amlwg - brand hawdd ei adnabod

Mae'n iawn i wahanol fathau o dystiolaeth ddweud pethau gwahanol ac i'r broses fod yn anhrefnus

Bydd pob rhanddeiliad yn arbenigwr yn o leiaf un o feysydd y Gacen Dystiolaeth

Bydd gan bob rhanddeiliad o leiaf un maes o'r Gacen Dystiolaeth lle y byddai'n elwa ar ddatblygu sgiliau casglu, dehongli neu ddefnyddio

Mae rhoi gwybodaeth ar waith yn effeithiol yn waith carfan

# Rhoi ar waith

Mae’r Gacen Dystiolaeth yn ganolog i waith CYBI Rhondda Cynon Taf ac mae hefyd wedi’i hintegreiddio yn rhan o feysydd allweddol busnes y Cyngor.

**Cylch Fframwaith Rheoli Cyflawniad y Cyngor** - Mae Hunanwerthusiadau Gwasanaeth Blynyddol bellach yn defnyddio ystod o dystiolaeth wrth adolygu cyflawniad a busnes a phenderfyniadau cynllunio strategol. Mae'r templed wedi’i ddiwygio er mwyn cysylltu’n uniongyrchol â’r Gacen Dystiolaeth, a hynny gyda Thaflen Gymorth y CYBI, sy'n darparu dolenni uniongyrchol i ffynonellau tystiolaeth.

**Gweithgor y Pwyllgor Craffu** – Rhoi strwythur Cylch Gorchwyl newydd ar brawf ar gyfer Gweithgorau Pwyllgorau Craffu wedi’i lywio gan y Gacen Dystiolaeth er mwyn sicrhau bod gwaith Aelodau Etholedig yn cael ei arwain gan dystiolaeth.

# Rhoi ar waith

Mae'r Gacen Dystiolaeth yn ganolog i waith CYBI Rhondda Cynon Taf ac mae hefyd wedi'i hintegreiddio yn rhan o feysydd allweddol busnes y Cyngor.

**Datblygu Capasiti -** mae cynnig Hyfforddiant y CYBI ar gyfer staff y Cyngor ac Aelodau Etholedig yn cael ei ddatblygu er mwyn magu sgiliau a hyder i gyrchu, dehongli, a defnyddio'r chwe math yma o dystiolaeth yng ngwaith bob dydd y Cyngor.

**Adrodd am waith y Cabinet a Phwyllgorau Craffu -** mae gwaith yn cael ei gynnal er mwyn diwygio'r templed adrodd ffurfiol i nodi'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i argymhellion Swyddogion a Phwyllgorau Craffu, a phenderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y Cabinet, yn glir.

# Rhoi ar waith

Mae'r Gacen Dystiolaeth yn ganolog i waith CYBI Rhondda Cynon Taf ac mae hefyd wedi'i hintegreiddio yn rhan o feysydd allweddol busnes y Cyngor.

**Clinigau Ymholi'r CYBI -** maen nhw'n cael eu defnyddio ar gyfer deall yr ymchwil a'r bylchau mewn tystiolaeth ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor sy'n gofyn am gymorth gan y CYBI. Mae ffurflenni ymholi a thrafodaethau clinigau wedi'u strwythuro o amgylch y Gacen Dystiolaeth er mwyn helpu staff y Cyngor i nodi sylfaen dystiolaeth bresennol.

**Sylfaen ar gyfer datblygu seilwaith tystiolaeth er mwyn bod yn sail i ddull gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn y Cyngor -** mae gwaith creu Storfa Data a Thystiolaeth y CYBI wedi'i strwythuro o amgylch y Gacen Dystiolaeth sy'n ei gwneud hi'n haws i staff y Cyngor a sefydliadau partner ddod o hyd i ffynonellau tystiolaeth a data yn ôl y math o dystiolaeth

# Rhoi ar waith

Mae’r Gacen Dystiolaeth yn ganolog i waith CYBI Rhondda Cynon Taf ac mae hefyd wedi’i hintegreiddio yn rhan o feysydd allweddol busnes y Cyngor.

**Y modd i fonitro effaith ac olrhain newid diwylliant -** Casglu gwybodaeth sylfaenol mewn perthynas â chyrchu a defnyddio mathau gwahanol o dystiolaeth ar draws y Cyngor er mwyn nodi newidiadau dros amser

**Sylfaen ar gyfer meithrin dull cyson a chynhwysol o ran defnyddio gwybodaeth -** mae gwaith prosiect y CYBI sy'n cynnwys partneriaid, dinasyddion a sefydliadau cymunedol lleol yn defnyddio’r Gacen Dystiolaeth er mwyn annog dull ar y cyd o gasglu, dehongli ac adrodd tystiolaeth, gan fagu hyder rhanddeiliaid nad ydyn nhw'n rhai academaidd i gymryd rhan mewn gweithgareddau defnyddio gwybodaeth

# Tystiolaeth o'r effaith

“Mae’n amlwg bod y CYBI yn cael effaith yn barod. Fe wnes i gwrdd ag Aelodau Etholedig yr wythnos diwethaf er mwyn rhoi gwybod iddyn nhw am newid y mae angen i ni ei wneud a chafodd y Gacen Dystiolaeth ei defnyddio yn fy erbyn. Gofynnwyd i mi nodi’r ystod o dystiolaeth roeddwn i wedi'i defnyddio er mwyn gwneud y penderfyniad!”

Uwch Reolwr Cyngor Rhondda Cynon Taf

Mehefin 2025

# Rhannu'r hyn a ddysgir


Mae'r Gacen Dystiolaeth yn boblogaidd gydag ystod o gynulleidfaoedd lleol, cenedlaethol a rhai ledled y DU.

- Mae'n cael ei defnyddio ar draws y Cyngor a'r sector gwirfoddol yn **Rhondda Cynon Taf**
- Mae **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)** wedi ymgorffori'r Gacen Dystiolaeth yn rhan o'i hyfforddiant i Aelodau Etholedig ledled Cymru mewn perthynas â swyddogaeth Pwyllgorau Craffu, ac mae potensial iddi gael ei defnyddio yn rhan o bob rhaglen hyfforddi a sefydlu Aelodau Etholedig CLlLC.
- Mae **Gwasanaeth Cymorth Ymchwil y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal** hefyd wedi rhannu'r Gacen Dystiolaeth gydag Awdurdodau Lleol yn Lloegr yn rhan o'r rhaglen LARP: Cyngor Bwrdeistref Blackburn gyda Darwen. Cyngor Sir Hampshire, Cyngor Sir Caint, Cyngor Sir Swydd Gaerhirfryn, Cyngor Sir Swydd Rydychen, Cyngor Swydd Buckingham, Cyngor Bwrdeistref Wigan, Cyngor Westmorland a Furness.
- Wedi'i rhannu â ChYBIau eraill ledled y **DU**

# Dewch i ddysgu rhagor!

[Gwnewch Newid yn RhCT](https://gwnewchnewidyn.rctcbc.gov.uk/) – [https://gwnewchnewidyn.rctcbc.gov.uk/](https://gwnewchnewidyn.rctcbc.gov.uk/)

[CYBI@rctcbc.gov.uk](mailto:CYBI@rctcbc.gov.uk)






## Diolch yn fawr